UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GWELLIANNAU'R A40 REDSTONE CROSS

DATGANIAD AMGYLCHEDDOL: CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Gorffennaf 2020

CYNNWYS

		Tudalen
1	CYFLWYNIAD	1
2	CEFNDIR A'R ANGEN AM Y CYNLLUN	3
3	POLISIAU AC AMCANION	4
4	DISGRIFIAD O'R CYNLLUN	5
5	ADEILADU'R CYNLLUN	7
6	OPSIYNAU ERAILL A YSTYRIWYD	8
7	ASESIAD O EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL	10
8	BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?	21
9	RHAGOR O WYBODAETH	22
10	EICH BARNAU	22

Rhif ISBN: ISBN: 978-1-80038-688-4
Cyfeirnod Llywodraeth Cymru: qA1397254

© Hawlfraint y Goron

www.llyw.cymru

75% wedi'i ailgylchu recycled

1 CYFLWYNIAD

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrdd yng Nghymru. Mae'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn darparu cyswllt cefnffordd allweddol rhwng de-ddwyrain Cymru a Hwlffordd, y dref sy'n borth i borthladdoedd Aberdaugleddau a Abergwaun, yn ogystal ag economi twristiaeth canol a gogledd Sir Benfro.

Darpariaeth gyfyngedig a geir ar hyn o bryd i oddiweddyd yn ddiogel ar yr A40 rhwng Hwlffordd a Sanclêr, ac mae hyn yn achosi amseroedd siwrneiau annibynadwy a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd prysur yr haf.

Ar ôl ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid creu rhan 1.76km newydd o Gefnffordd yr A40 i'r de o gefnffordd bresennol yr A40 rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch. Byddai rhannau segur yr A40 bresennol rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch yn cael eu hailddosbarthu a'u hisraddio, gyda'r berchenogaeth drostynt yn dychwelyd i'r awdurdod priffyrdd lleol.

Gelwir y Cynllun arfaethedig yn Gwelliannau'r A40Penblewin I Groesffordd Maencoch (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y "Cynllun"). Dangosir lleoliad y Cynllun yn Ffigur 1.

Roedd cynigion y Cynllun yn amodol ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn unol â Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2011/92/ EU, a ddiwygiwyd gan Cyfarwyddeb 2014/52/ EU (atgyfeiriwyd ar y cyd fel y Cyfarwyddeb AEA). Mae'r olaf wedi'i dransgrifio mewn i gyfraith y DU trwy'r Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol yn Gysylltiedig a Harbyrau, Priffyrdd a Trafnidiaeth) 2017, a ddaeth mewn i rym ar 5 Rhagfyr 2017.

Yn unol â hynny, paratowyd Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau effeithiau a darparu gwelliant amgylcheddol lle bo'n ymarferol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn sicrhau bod pawb sydd â buddiant yn y Cynllun, gan gynnwys y cyhoedd, yn deall y cynigion a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn arnynt cyn i Weinidogion Cymru benderfynu p'un ai i gadarnhau'r Gorchmynion Statudol drafft ar gyfer y Cynllun.

Crynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol yw'r ddogfen hon, sy'n disgrifio'r Cynllun ac yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r broses AEA mewn iaith annhechnegol.

Mae Adroddiad Asesu Cynllun (yr "AAC") ar gael hefyd sy'n disgrifio'r agweddau ar y Cynllun nad oes a wnelont â'r amgylchedd mewn iaith glir. Dylid darllen y Crynodeb Annhechnegol hwn ochr yn ochr â'r AAC.

Cyhoeddwyd y Datganiad Amgylcheddol ar 29 Gorffennaf 2020, ochr yn ochr â Gorchmynion Statudol drafft y Cynllun. Rhestrir Gorchmynion Statudol drafft y Cynllun yn yr AAC.



Ffigur 1: Lleoliad y Cynllun

2 CEFNDIR A'R ANGEN AM Y CYNLLUN

Mae'r A40 yn llwybr strategol cenedlaethol a rhyngwladol, ac mae'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Ar lefel ranbarthol a lleol, mae'n gwasanaethu: tref sirol Hwlffordd, economi dwristiaeth canolbarth a gogledd Sir Benfro, porthladd Abergwaun a thref ddiwydiannol Aberdaugleddau yn y de.

Er gwaethaf hyn, mae ansawdd y rhan hon o'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlffordd yn gymharol wael. Mae wedi'i disgrifo'n faenorol o fewn y Blaenrhaglen Cefnffyrdd Cenedlaethol fel un o rannau gwaethaf y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig.

Nododd astudiaeth yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTag) broblemau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar yr A40 ar hyd y coridor rhwng Penblewin a Chroesffordd Maencoch, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o broblemau gwirioneddol a chanfyddedig:

1. Nid yw Cyffordd yr A40 yng Nghyffordd Maencoch yn cyrraedd safonau dylunio modern. Gall gweleded gwael a chynllun is-safonol y gyffordd arwain at ddamweiniau difrifol.
2. Mae diffyg cyfeoedd goddiweddyd yn arwain at amseroedd teithio gwael ac yn achosi rhwystredigaeth i yrwyr.
3. Mae'r rhesi hir achlysurol o nwyddau cerbydau trwm o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol araf yn golygu ei bod hi'n anodd rhagweld amseroedd teithio, ac mae diffyg cyfeoedd goddiweddyd yn gwneud y sefyllfa'n waeth.
4. Mae lefelau uchel o draffg ar hyd yr A40 ar adegau penodol o'r fwyddyn (yn enwedig yn ystod misoedd yr haf) yn golygu bod traffg araf yn ei gwneud hi'n anodd rhagweld amseroedd teithio, ac mae diffyg cyfeoedd goddiweddyd yn gwneud y sefyllfa'n waeth.
5. Mae llawer o gyffyrdd ffyrdd ymyl a ffyrdd mynediad uniongyrchol i eiddo a chaeau amaethyddol oddi ar yr A40, sy'n cyfrannu at broblemau gweithredol ar hyd y ffordd.
6. Mae amrywiaeth o fathau o draffig yn defnyddio'r ffordd, sy'n cyfrannu at annibynadwyedd amseroedd teithio, rhwystredigaeth i yrwyr, achosion peryglus o oddiweddyd a gwrthdrawiadau.
7. Mae diffyg cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus strategol yn Sir Benfro yn gyffredinol yn golygu bod pobl yn dibynnu ar geir preifat i deithio rhwng tref.

Ffigur 2: Yr A40 wrth Gyffordd Croesffordd Maencoch yn edrych tua'r gorllewin

3 POLISIAU AC AMCANION

Mae'r cynigion hyn yn cefnogi cyfeiriad ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellwyd yn ei Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' (2016), y Strategaeth Genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' (2017), y 'Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol' (2019) a'r 'Cynllun Ariannu' (2015), 'Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008' a 'Pholisi Cynllunio Cymru' (2018).

Ystyriwyd ystod eang o ddogfennau deddfwriaeth a pholisi fel rhan o waith datblygu'r Cynllun, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd 2016, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol. Mae Pennod 5 o'r Datganiad Amgylcheddol yn adrodd ar yr holl ddeddfwriaeth a pholisi a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Cytunwyd ar wyth o Amcanion penodol fel rhan o Grŵp Adolygu'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), sef:

A1	Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafnidiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.
A2	Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlffordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng Ngorllewin Cymrun.
A3	Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau.
A4	Gwella diogelwch cyffordd Croesffordd Maencoch (gan gynnwys diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau.
A5	Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach.
A6	Cyflawni Cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafnidiaeth allweddol.
A7	Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwyso gwastraff a charbon.
A8	Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.

4 DISGRIFIAD O'R CYNLLUN

Dyluniwyd y Cynllun i fodloni amcanion y prosiect trwy ddarparu cyfleoedd i oddiweddyd gyda cherbytffordd '2+1' (dwy lôn i un cyfeiriad i alluogi goddiweddyd, ac un lôn i'r cyfeiriad arall). Bydd hyn yn darparu tuag 1km o gyfle ychwanegol i oddiweddyd tua'r gorllewin. Disgrifir y Cynllun o'r gorllewin i'r dwyrain, yn dechrau yn Sodston Lodge yn y gorllewin ac yn symud ymlaen tuag cylchdro Penblewin yn y dwyrain. Mae'r cynllun wedi'l ddarlunio yn y ffigur yng nghefn y ddogfen yma.

Priffordd yr A40

Byddai'r Cynllun yn dechrau tua 550m i'r gorllewin o Groesffordd Maencoch lle mae'r A40 esgynnol bresennol yn pasio pasio'r eiddo a elwir Sodston Lodge. Byddai pwll/basn lleihau dŵr newydd (Pwll A) yn cael ei ddarparu i'r de o'r A40 ac i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo a elwir Barc Jacob.

Wrth deithio tua'r dwyrain, byddai'r Cynllun yn gadael llinell yr A40 bresennol yn Sodston Lodge ar hyd lôn sengl, gan deithio'n raddol tua'r de wrth ddynesu at y B4313 Heol Redstone presennol. Byddai'r A40 wedyn yn dechrau disgyn ar raddfa fach. Byddai'r lôn sengl yn lledu i adran goddiweddyd 2+1 tua'r gorllewin. Byddai eiddo wrth Groesffordd Maencoch ar ochr ogleddol y Cynllun a Chartref Gofal Blaenmarlais ar yr ochr ddeheuol. Byddai'r B4313 – Ffordd Maencoch yn croesi'r A40 ar drosbont arfaethedig.

I'r dwyrain o'r trosbont arfaethedig, byddai'r A40 yn parhau i wyro'n raddol tua'r chwith i groesi cwrs dŵr bach i'r gogledd o Gartref Gofal Blaenmarlais. Yma byddai'r Cynllun yn trosglwyddo'n raddol o gloddiad i arglawdd i groesi coetir ar dir is. Wrth yr arglawdd, byddai'r ffordd yn parhau tua'r dwyrain gan groesi dau gwrs dŵr bach. Byddai tanffordd yn cael ei chyfwyno ar ochr ddwyreiniol Fferm Blackmoor Hill, a fyddai'n cael ei defnyddio fel tanffordd fferm ac i ddarparu mynediad i bwll/basn lleihau dŵr newydd (Pwll B).

Wrth gylchfan Penblewin, byddai'r Cynllun yn ailymuno â chefnffordd yr A40 wrth y gylchfan fwy a gynigiwyd yn faenorol ar gyfer y cynllun i wella'r A40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin. Byddai'r gylchfan fwy yn ymestyn ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin na'r un bresennol a byddai'n gwasanaethu cefnffordd yr A40, yr A478 a'r ffordd gyswllt ag Ardal Orffwys Penblewin. Hefyd, byddai angen chweched fraich ar gyfer ffordd gyswllt fer newydd i'r rhan o'r A40 wedi'i hisraddio i Groesffordd Maencoch.

Croesffordd Maencoch

Caiff cyffordd a ffordd gyswllt newydd eu adeiladu rhwng priffordd yr A40 a'r B4313 Heol Maencoch. Lleolir rhain i'r dwyrian o Sodston's Lodge ac i'r de o'r gyffordd presennol croesffordd Maencoch. Byddai'r ffordd gyswllt yma (a ddangosir yn Ffigur 3) yn darparu ffordd i mewn ac allan i traffig yn teithio tuag at neu o Hwlffordd yn unig. Ni fyddai modd cael mynediad i'r ffordd gyswllt oddi ar gerbytffordd arfaethedig yr A40 tua'r gorllewin. Yn lle hynny, byddai traffg a oedd yn teithio ar hyd yr A40 tua'r gorllewin ac yn teithio tuag at gogledd Arberth ac i Barc Menter Rushacre yn cael ei gyfeirio i ddefnyddio'r A40 presennol drwy fraich gogledd-orllewinol cylchfan arfaethedig Penblewin.



Ffigur 3: Cynllun Newydd Heol Maencoch (tua'r gogledd orllewin)

Ffigur 4: Cefnffordd bresennol yr A40 yn edrych tua'r dwyrain

5 ADEILADU'R CYNLLUN

Os yw Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r Gorchmynion, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn y Hydref 2021, a gallai'r Cynllun agor yn hwyr 2022. Gallai gweithdrefnau Statudol, amodau'r tywydd neu amodau peirianegol nas rhagwelwyd ar y safle effeithio ar ddechrau'r gwaith adeiladu. Byddai pum mlynedd o waith cynnal a chadw'r dirwedd ac ôl-ofal yn dilyn y cam adeiladu.

Yr oriau gweithio adeiladu fyddai 0700 i 1900 fel arfer (Llun i Gwener), a 0700 i 1700 ar ddydd Sadwrn. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod rhaid ymgymryd â gwaith penodol y tu allan i'r oriau hyn, a gall fod angen rhywfaint o weithio dros nos. Byddai angen rheolaeth dros dro ar draffig lle mae'r Cynllun yn cyfarfod â ffyrdd presennol.

Adeiladu fesul cam

Bydd dilyniant y gwaith tra bod y Cynllun yn cael ei adeiladu yn dechrau gan ddilyn y drefn ganlynol, yn nodweddiadol:

Cam 1

- Gosod ffens dros dro o amgylch y coridor adeiladu;
- Ymchwiliadau archaeolegol;
- Clirio llystyfiant o'r safle;
- Clirio'r safle; a
- Dargyfeirio neu warchod cyfleustodau.

Cam 2

- Cloddio trychfeydd a chronbyllau;
- Adeiladu argloddiau a'r strwythurau e.e. pont a chwlfertau;
- Adeiladu'r ffordd gerbydau newydd;
- Gosod colofnau golau, arwyddion ffyrdd, rhwystr diogelwch a rhagor o ffensys; a
- Phlannu tirwedd a gwaith hwylustod, gan gynnwys mynedfeydd newydd i gaeau.

Beth fydd yn digwydd i'r hen heol?

Tynnir statws cefnffordd y ffordd bresennol a byddai cyfrifoldeb yn pasio o Weinidogion Cymru i Gyngor Sir Penfro,

Byddai'r ffordd yn gwasanaethu traffig lleol sy'n teithio I Heol Redstone / gogledd Arberth, ac i Bethesda. Mae opsiynau i gynnwys llwybr teithio llesol ar wahan wedi'u datblygu. Bydd unrhyw gynllun yn cael ei gytuno gan Cyngor Sir Benfro yn ystod cam nesaf y Cynllun.

6 OPSIYNAU ERAILL A YSTYRIWYD

Ym mis Ionawr 2019, aeth cwmni Arup (wedi'i gefnogi gan RML) ati i ymchwilio i'r problemau, gan ddatblygu atebion effeithiol posibl i fynd i'r afael â'r problemau o ran trafnidiaeth ar hyd yr A40 rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Trwy broses Cam 1 WelTAG, ystyriwyd rhestr hir o ddewisiadau a lluniwyd rhestr fer o opsiynau. Dewiswyd un aliniad gogleddol a deheuol a threfniadau amgen ar gyfer cyffordd Croesffordd Maencoch. Yr Opsiynau a ddewiswyd i'w datblygu ymhellach ar gyfer y rhestr flaenorol oedd: Opsiwn 1A, Opsiwn 1B (dangoswyd yn Ffigur 5) ac Opsiwn 2A. Wedi hynny, ychwanegwyd Opsiwn 2B newydd at y rhai a ddangoswyd yn flaenorol ac fe'i cyflwynwyd i'r cyhoedd mewn arddangosfa arall (dasngoswyd Opsiynau 2A & 2B yn Ffigur 6).

Yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Medi 2019, gwelwyd cefnogaeth glir i Opsiwn 2B, ynghyd â chefnogaeth i fesurau Teithio Llesol a oedd yn rhan o'r cynigion israddio.

Yn dilyn yr Ymgynghorid Cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llwybr a Ffefrir yn Rhagfyr 2019. Cynhaliwyd Arddangosiad Gwybodaeth i'r Cyhoedd ar ol hyn i esbonio datblygiadau'r cynllun i'r cyhoedd ac i wrando ar eu adborth, sydd wedi'u gynnwys ble'n bosib.

Ymgynghorwyd â sefydliadau rhanddeiliaid,gan gynnwys Cadw, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Penfro (CSP) ac adrannau eraill o Lywodraeth Cymru, neu maent wedi darparu gwybodaeth. Ystyriwyd eu barnau wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu. Mynychodd y sefydliadau statudol Gyfarfodydd Cyswllt Amgylcheddol a byddant yn parhau i gyfarfod trwy gydol cyfnod datblygu'r Cynllun.

Fe wnaeth trigolion lleol a perchnogion busnes fynychu arddangosfeydd cyhoeddus yn Arberth a chyfarfod â thîm y prosiect. Ymgynghorwyd yn anffurfiol â gweithredwyr masnachol, diwydiannol, busnes a rhai grwpiau â buddiant. Hefyd, gwahoddwyd yr holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt gan y gofyniad am dir, neu gan newidiadau i ffyrdd mynediad, i lenwi holiadur yn ymwneud â defnyddiau tir presennol.

Ffigur 5: Opsiynau 1A a 1B

Ffigur 6: Opsiynau 2A a 2B

7 ASESIAD O EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL

Cynhaliwyd asesiad o effeithiau arwyddocaol ar gyfer pob un o'r 13 maes pwnc, a chyflwynir crynodeb o'r asesiad isod. Mae pob asesiad pwnc wedi'i seilio ar feini prawf sy'n deillio o ddeddfwriaeth ac arweiniad argymelledig ar gyfer y pynciau unigol.

DYLUNIO A LLINIARU

Mae mesurau lliniaru a amlygwyd trwy'r broses asesu wedi cael eu hymgorffori yn nyluniad y Cynllun er mwyn dileu effeithiau niweidiol lle y bo'n bosibl.

Adeiladu

Yn ystod y broses adeiladu, bydd y rhan fwyaf o effeithiau niweidiol posibl y Cynllun yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru trwy weithredu arferion safonol a mesurau rheoli'r diwydiant. Manylir ar y rhain mewn cynllun ar gyfer contractwyr, a elwir fel arfer yn Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Mae drafft cynnar o'r dogfen yma wedi ei ddatblygu ar rhan Llywodraeth Cymru yn barod, a elwir yn Pre-CEMP. Mae'r Pre-CEMP wedi ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol.

Gweithredu

Wrth ddylunio'r Cynllun, y brif flaenoriaeth wrth liniaru unrhyw effaith yw ceisio llunio mesurau dylunio peirianneg sy'n osgoi neu'n dileu'r effaith yn llwyr, er enghraifft trwy newidiadau i osodiad y Cynllun. Lle nad yw'n bosibl osgoi effaith, neu lle mae hynny'n rhannol effeithiol yn unig, efallai y bydd angen mesurau lliniaru ychwanegol. Mae enghreifftiau'n cynnwys plannu coed i sgrinio golygfeydd a darparu mannau croesi i fywyd gwyllt.

ASESU EFFEITHIAU

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r asesiad o effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol o ganlyniad i'r Cynllun yn ôl pynciau amgylcheddol.

Daeareg a Phriddoedd

Mae asesiad o ddaeareg a phriddoedd wedi cael ei gynnal, a ystyriodd ddaeareg, nodweddion daearegol, adnoddau mwynau a halogiad tir. Mae dwy chwarel y gwyddys amdanynt yn ardal y Cynllun, felly mae'n bosibl y gellid dod ar draws chwarela hanesyddol a thir wedi'i fewnlenwi yn annisgwyl, a allai fod yn ffynhonnell halogiad. Mae archwiliadau tir ar y safle wedi amlygu perygl bach o halogiad tir.

Adeiladu

Mae'r asesiad wedi ystyried yr effeithiau ar y ddaeareg waelodol o ganlyniad i gloddwaith, tynnu deunydd ymaith ac adeiladu strwythurau. Ystyriwyd yr effaith ar gyflenwadau adnoddau hefyd. Aseswyd effaith bosibl y gwaith adeiladu ar ddyfroedd a reolir a halogiad sy'n effeithio ar iechyd dynol.

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ddaeareg yn ardal y Cynllun gan fod yr holl effeithiau wedi cael eu dosbarthu'n niwtral neu ychydig yn niweidiol.

Gweithredu

Aseswyd bod yr holl effeithiau'n niwtral neu ychydig yn niweidiol, sy'n golygu na amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol ac nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol, heblaw am y mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori. Canfu'r asesiad fod effaith niwtral / ychydig yn fuddiol yn bosibl trwy frigiadau creigiog wedi'u ffurfio gan drychfeydd ar hyd y Cynllun, gan felly ddarparu ardaloedd o ddiddordeb daearegol.

Draenio Ffyrdd a'r Amgylchedd Dŵr

Mae amgylchedd dŵr y Cynllun yn cynnwys cyrsiau dŵr wyneb, gan gynnwys nifer o is-afonydd a phyllau dienw, y dŵr daear gwaelodol a nodweddion cysylltiedig sy'n dibynnu ar ddŵr daear. Cynhaliwyd asesiad o effeithiau posibl y Cynllun ar yr amgylchedd dŵr, a ystyriodd yr effeithiau ar ansawdd dŵr, cyfaint dŵr a pherygl llifogydd.

Adeiladu

Canfu'r asesiad o effeithiau yn ystod adeiladu y gallai fod effaith arwyddocaol ar ansawdd dŵr daear, ac aseswyd bod yr effaith yn niweidiol gymedrol. I liniaru hyn, bydd y technegau adeiladu arfer gorau safonol a amlinellir yn y CEMP yn cael eu gweithredu. Ni ystyriwyd bod unrhyw effeithiau eraill yn arwyddocaol.

Gweithredu

Mae'r asesiad gweithredol wedi amlygu effaith niwtral ar yr amgylchedd dŵr. Bydd y mesurau lliniaru a gynhwysir yn rhan o'r dyluniad yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau ar gyfer dylunio gollyngfeydd a chwlfertau, a byddant yn cael eu gweithredu ar gyfer pob strwythur.

Cadwraeth Natur (Bioamrywiaeth)

Mae'r asesiad yn ystyried y buddiannau cadwraeth natur a bioamrywiaeth canlynol:

- Safleoedd gwarchodedig;
- Cynefinoedd; a
- Rhywogaethau ffawna a fflora.

Adeiladu

Yn ystod adeiladu'r cynllun, mae arwyddocad yr effaith ar goedwigoedd yn effaith niweidiol cymedrol ac ychydig yn niweidiol ar berthi o achos darnio coridorau gwyrdd a cynefinoedd. Yn dilyn mesurau lliniaru, mae arwyddocad yr effeithiau ar ystlumod wedi'i rhagfynegi i fod yn effaith niweidiol cymhedrol i rhywogaethau o bywsigrwydd rhyngwladol, ac ychydig yn niweidiol ar rhywogaethau o bwysigrwydd lleol. Yn dilyn mesurau lliniaru, bydd arwyddocad effeithiau ar cyrs dwr, pathewod, dyfrgi, tylluanod gwynion a gwybedogion mannog ychydig yn niweidiol. Bydd effeithiau ar rhywogaethau eraill gan gynnwys adar sy'n bridio, moch daear, ymlusgiaid, amffibiaid a rhai mamaliaid eraill yn niwtral. Does dim effeithiau arwyddocaol wedi'u rhagfynegi ar safleoedd gwarchodedig.

Gweithredu

Yn ystod gweithredu'r cynllun, unwaith mae'r planhigion wedi aeddfedu mae arwyddocad yr effaith ar goetir collddail isel, cyrisau dwr ac ar berthi yn effaith niwtral dros amser. Bydd creu 6ha o glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau yn arwain at effaith ychydig yn llesiannol ar gyfer y cynefin yma. Bydd cynnwys croesfannau a cwlfert natur yn lleihau arwyddocad yr effeithiau ar y crynodiad o ystlumod o rhywogaethau o bwysigrwyth rhyngwladol a bydd arwyddocad niwtral ar y crynodiad o ystlumod o bwysigrwydd lleol. Bydd yr effaith gweddillol ar tylluanod gwynion ychydig yn niweidiol o achos risg gwrthdrawiadau ar hyd yr heol. Bydd mesurau eraill yn cynnwys creu cynefinoedd, fensio mamaliaid a sarnau yn dileu'r effeithiau niweidiol ar dyfgi, moch daear, ymlusgiaid ac amffibiaid. Does dim effeithiau arwyddocaol wedi'u rhagfynegi ar safleoedd gwarchodedig.

Effeithiau Tirweddol a Gweledol

Mae'r Cynllun yn meddiannu rhan o gefnen amlwg a llwyfandir â llethrau sgarp serth sy'n amgylchynu blaen Afon Marlais a Bro Llanbedr Pont Steffan. Mae'r gefnen a'r llwyfandir wedi'u rhannu gan ddyffrynnoedd serthochrog sy'n draenio i afonydd Taf a Chleddau. Mae topograffeg yr ardal amgylchynol yn donnog gydag amryw ddyffrynnoedd afonydd a chanddynt lethrau coediog yn aml. Mae cloddiau Sir Benfro, perthi â choed a blociau o goetir yn croesi'r dirwedd ac mae rhwydwaith o lonydd cul yn cysylltu pentrefi, anheddau unigol ac aneddiadau gwledig.

Mae nifer o safleoedd dynodedig pwysig yn agos i ardal y Cynllun, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Blackaldern.

Adeiladu

Mae'r asesiad hwn yn dod i'r casgliad, yn ystod y cyfnod adeiladu a'r flwyddyn gyntaf ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, y bydd y Cynllun yn cael effaith niweidiol ysgafn ar dair ardal cymeriad tirwedd, sef Arberth, Cefnen Llanddewi Felffre a Llethrau Llanddewi Felffre. Bydd yr effaith hon yn lleihau wrth i'r mesurau lliniaru tirwedd arfaethedig sefydlu.

Bydd yr effaith ar olygfeydd o Sodston House Lodge, Blaenmarlais, Blaenffynnon a Phenblewin yn niweidiol yn ystod y cyfnod adeiladu a blwyddyn 1 y Cynllun.

Mae'r asesiad o'r effaith weledol ar 190 o eiddo preswyl yn rhagfynegi y bydd effaith niweidiol arwyddocaol gychwynnol ar 11 eiddo yn ystod y cyfnod adeiladu.

Gweithredu

O ran Ardal Cymeriad Tirwedd Arberth Wledig, bydd effaith negyddol fawr yn ystod y cyfnod adeiladu a blwyddyn 1. Erbyn blwyddyn 15, bydd hyn wedi lleihau i effaith negyddol fach. Ar gyfer ardal yr astudiaeth, bydd yr effiethiau yn niwtral erbyn blwyddyn 15.

Erbyn blwyddyn 15, bydd yr effeithiau negyddol hyn wedi'u cymedroli gan ddatblygiad mesurau lliniaru tirwedd sy'n cynnwys trychfeydd ffug, cloddiau Sir Benfro, a phlannu coed a llwyni helaeth. Cynigir rhai rhwystrau sŵn fertigol hefyd, a bydd y rhain yn helpu i sgrinio golygfeydd o draffig.

Mae'r asesiad o'r effaith weledol yn dangos effaith niweidiol ar 4 eiddo preswyl erbyn blwyddyn 15.

Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

Mae nifer o nodweddion treftadaeth wedi cael eu hamlygu o fewn yr ardal astudio 3km, gan gynnwys Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, systemau caeau a phontydd. Mae arolygon geoffisegol hefyd wedi amlygu nifer o ardaloedd a allai gynnwys archaeoleg gladdedig.

Adeiladu

Amlygwyd y bydd effeithiau'r gwaith adeiladu ar yr asedau treftadaeth yn ardal yr astudiaeth yn niwtral. Yr eithriadau yw'r Dollffordd rhwng Sanclêr a Phont Canaston, nodweddion ar ffurf cylch, Lôn ar Fap y Degwm a thŷ ac ysgubor Blaen Marlais yr ystyrir y bydd effaith o arwyddocâd niwtral neu fach arnynt, y system gaeau a'r ôl cnwd crwn yr amlygwyd y bydd effaith fach arnynt, ac adeilad annibynnol yr amlygwyd y bydd effaith o arwyddocâd bach neu gymedrol arno. Mae'n dra phosibl hefyd y gallai gwaith ymwthiol ar y Cynllun ddatgelu olion archaeolegol heb eu cydnabod yn flaenorol. Fel mesur lliniaru, mae rhaglen gwerthuso archaeolegol wedi'i chynllunio a fydd yn golygu cofnodi olion archaeolegol presennol a thorri ffosydd.

Gweithredu

Ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar leoliad asedau hanesyddol dynodedig yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun. Bydd Grŵp Beddrodau Croesffordd Maencoch yn gweld gwelliant gan y bydd y brif ffordd yn symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth y beddrodau. Pan fydd y Cynllun yn weithredol, ni fydd modd ei weld o fwyafrif helaeth y safleoedd dynodedig (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) a amlygwyd o fewn y parth clustogi 3km, o ganlyniad i fryniau a phellter cynyddol.

Asedau Cymunedol a Phreifat (ac eithrio amaethyddiaeth)

Mae'r asesiad o asedau cymunedol a phreifat yn cynnwys effeithiau ar gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys: meddygfeydd, ysbytai, cartrefi hen bobl, ysgolion, siopau, swyddfeydd post, mannau addoli, parciau, ardaloedd chwarae a mannau agored cyhoeddus eraill a chanolfannau chwaraeon. Mae hefyd yn asesu effeithiau ar asedau preifat a masnachol, gan gynnwys eiddo preifat a meddiannu tir cysylltiedig, eiddo masnachol a thir datblygu.

Adeiladu

Bydd yr effeithiau posibl yn ystod y cyfnod adeiladu yn rhai dros dro. Drwy gydol y broses o adeiladu'r Cynllun, bydd niwsans o ganlyniad i gyfyngiadau mynediad, sŵn, llwch a dirgryniad yn cael ei liniaru i'r graddau mwyaf posibl trwy fesurau a amlinellir yn y CEMP. Yn ogystal, defnyddir dulliau rheoli traffig dros dro lle bynnag y bo'r angen i gynnal mynediad i gymunedau. Bydd Cartref Gofal Blaenmarlais, derbynyddion preswyl ac un eiddo masnachol yn profi effeithiau niweidiol bach gan gynnwys sŵn, llwch a dirgryniad, ac effeithiau ar siwrneiau ymwelwyr â'r cartref gofal o ganlyniad i reoli traffig.

Gweithredu

Yn ystod gweithredu, bydd effeithiau buddiol ar y cartref gofal a derbynyddion preswyl o trwy ddarparu llwybr cerdded / seiclo newydd a trwy rhanu o traffic yr A40. Bydd symud cefnffordd yr A40 ymhellach i ffwrdd yn cael effaith gadarnhaol, yr aseswyd ei bod yn niwtral i fuddiol cymedrol, ar adeiladau preswyl eraill oherwydd y bydd llai o sŵn a dirgryniad a gwell ansawdd aer. Bydd mynediad i ac o Arberth ar droed ac ar feic yn well ar gyfer eiddo preswyl i'r gogledd o'r A40 bresennol, gan na fydd angen croesi cefnffordd yr A40 ar yr un lefel.

Ffigur 7: Ardal yr Henebion Cofrestredig (i'r gogledd o'r A40 presennol)

Asedau Cymunedol a Phreifat: Amaethyddiaeth

Archwiliodd yr asesiad yr effeithiau posibl ar adnoddau tir amaeth a busnesau fferm. Wrth asesu adnoddau tir, mesurwyd y tir amaeth ar raddfa yn ôl ei ansawdd, ac felly ei sensitifrwydd i effeithiau. Ystyriodd yr asesiad o fusnesau fferm yr effeithiau ffisegol, gan gynnwys colli tir, gwahanu, yr effeithiau posibl ar symud da byw, mynedfeydd caeau, draenio a defnyddio adeiladau fferm, yn ogystal â ph'un a allai'r tir barhau i fod o ddefnydd amaethyddol buddiol yn y tymor hwy.

Adeiladu

Bydd pump fferm yn cael eu heffeithio gan meddiannu tir parhaol ar gyfer y Cynllun. Bydd angen peth tir dros dro ar gyfer adeiladu, a fydd yn cael ei ddychwelyd i'r perchnogion ar ol cwblhau'r Cynllun. O ran gwahanu, disgwylir y bydd modd cynnal mynediad i'r tir yn ystod y cyfnod adeiladu, heblaw am un cae. Defnyddir arferion adeiladu da i sicrhau nad oes unrhyw chwyn na chlefydau amaethyddol yn cael eu lledaenu rhwng ffermydd. Mae mesurau lliniaru'n cynnwys lleihau effaith colli cnydau trwy rybuddio ffermwyr o flaen llaw fel y gallant gynllunio ar gyfer y flwyddyn o flaen llaw. Bydd gwaith yn cael ei amseru i ddechrau yn union ar ôl y cynhaeaf a bydd draenio caeau yn cael ei fonitro. Os effeithir ar gyflenwadau dŵr, bydd datrysiadau dros dro neu barhaol yn cael eu cynnig i'r perchenogion yr effeithir arnynt. Ystyrir bod yr holl effeithiau yn niweidiol cymedrol ac felly'n arwyddocaol.

Gweithredu

Bydd y Cynllun yn arwain at golli 12.8 hectar o dir amaeth a choetir cysylltiedig yn barhaol. Ni ellir lliniaru hyn, ond gellir ei ddigolledu. Bydd 0.8 hectar arall yn cael ei ailffurfio a'i ddychwelyd i ddefnydd amaethyddol ar ôl adeiladu. Ni ystyrir bod y tir sy'n ofynnol o'r ansawdd gorau a mwyaf amlbwrpas, ac ystyrir bod yr effeithiau'n rhai niweidiol bach ac nid yn arwyddocaol.

Ffigur 8: Tir amaethyddol a golygfa yn edrych i'r de-orllewin (Fferm Blackmoor Hill ar y dde o'r llun)

Ansawdd Aer

Cynhaliwyd asesiad ansawdd aer manwl i sefydlu effeithiau posibl y Cynllun ar ansawdd aer lleol a rhanbarthol. Mesurwyd lefelau cymedrig blynyddol nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol (PM10) ger nifer o dderbynyddion sensitif, fel ysgolion a thai, ac yna fe'u cymharwyd â'r lefelau y rhagfynegir y byddant yn newid iddynt pe byddai'r Cynllun yn cael ei adeiladu a thraffig yn newid o ganlyniad.

Adeiladuu

Ni ragwelir y bydd yr amcanion ansawdd aer yn cael eu torri gyda'r Cynllun na hebddo yn unrhyw un o'r senarios a aseswyd. Rhagfynegir y bydd effaith niweidiol fach ar un derbynnydd yn unig, sef Cartref Gofal Blaenmarlais. Rhagfynegir y bydd yr effaith ar yr holl dderbynyddion eraill naill ai'n effaith ddibwys, yn effaith fuddiol fach, yn effaith gymedrol neu'n effaith fuddiol fawr. Gall effaith unrhyw weithgareddau sy'n allyrru llwch gael ei lleihau'n sylweddol trwy ddefnyddio mesurau lliniaru arfer gorau ar gyfer adeiladu, fel monitro gweithgareddau'r safle'n rheolaidd a lleoli peiriannau a gweithgareddau sy'n achosi llwch i ffwrdd oddi wrth dderbynyddion, lle y bo'n bosibl.

Gweithredu

Bydd y Cynllun yn symud prif draffig yr A40 i ffwrdd oddi wrth aliniad presennol y ffordd. Bydd hyn yn cael effaith fuddiol fach ar ansawdd aer ar gyfer derbynyddion ar aliniad presennol yr A40. Rhagfynegwyd y bydd effaith andwyol bach lle mae'r ffordd yn symud tuag at derbynwyr. Nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru.

Sŵn a Dirgryniad

Cynhaliwyd asesiad sŵn a dirgryniad i bennu arwyddocâd effeithiau dros dro a pharhaol sŵn a dirgryniad yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Y brif ffynhonnell sŵn yw traffig ffordd o'r A40 bresennol.

Adeiladu

Dangosodd yr asesiad sŵn y bydd pedwar o'r lleoliadau derbynyddion yn profi effeithiau arwyddocaol yn ystod y cam adeiladu. Bydd mesurau lliniaru priodol i leihau'r effeithiau hyn yn cael eu gweithredu trwy'r CEMP. Adroddodd yr asesiad fod effeithiau dirgryniad o ganlyniad i'r holl weithgareddau adeiladu yn ddibwys wrth yr holl dderbynyddion.

Gweithredu

O ran adeiladau y mae'r A40 wedi'i hailalinio yn agosach iddynt na'r A40 bresennol, mae effeithiau arwyddocaol niweidiol wedi'u hosgoi trwy gynnwys mesurau lliniaru tirwedd/sŵn (byndiau wedi'u tirweddu) rhwng y Cynllun a'r adeiladau.

Pob Teithiwr

Mae'r asesiad o bob teithiwr yn cynnwys teithwyr mewn cerbydau a cherddwyr, beicwyr a marchogion. Ystyrir yr effeithiau posibl ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau beicio a llwybrau eraill i gerddwyr, beicwyr a marchogion, priffyrdd cyhoeddus, trosbontydd a thanbontydd, trafnidiaeth gyhoeddus ac arosfannau bysiau, gwahanu cymunedol, straen gyrwyr a thynnu statws cefnffordd.

Ychydig iawn o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a geir yn ardal yr astudiaeth; dau gysylltiad yn unig sydd ar gael i gerddwyr, beicwyr a marchogion. Mae llwybr troed yn mynd tua'r gogledd-de gan ddilyn ffiniau tir amaeth ac mae'n terfynu, ar hyn o bryd, ar yr A40 bresennol i'r dwyrain o Fferm Blackmoor Hill. Nid yw'r mynediad i'r llwybr troed trwy'r A40 yn atyniadol ar hyn o bryd gan nad oes llwybrau troed i gerddwyr tua'r dwyrain na'r gorllewin, ac felly nid yw'n darparu cysylltedd ehangach.

Mae llwybr ceffylau yn mynd tua'r gorllewin-dwyrain i'r de o'r Cynllun rhwng yr A478 a'r B4313. Mae arwyddion clir yn dangos y llwybr wrth y ddwy groesffordd.

Adeiladu

Yn ystod adeiladu, dangosodd yr asesiad y bydd effeithiau niweidiol bach o ganlyniad i amharu ar wasanaethau a siwrneiau dros dro yn sgil adeiladu'r drosbont, rheoli traffig a gwyriadau. Ystyrir y bydd effaith niweidiol fach ar straen gyrwyr o ganlyniad i reoli traffig ac adeiladu. Bydd mesurau rheoli traffig adeiladu yn cael eu gweithredu yn rhan o'r CEMP.

Mae'r holl fesurau lliniaru yn y Cynllun ar gyfer pob teithiwr wedi'u hymgorffori yn y dyluniad, fel creu'r drosbont newydd.

Gweithredu

Mae'r asesiad yn rhagfynegi effaith fuddiol gymedrol ar gysylltedd ffyrdd lleol o ganlyniad i ddarparu trosbont, yr ystyrir ei bod yn arwyddocaol. Mae effeithiau buddiol bach eraill yn cynnwys gwelliannau cysylltedd trwy gysylltiadau â'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd a'r drosbont, dros ffordd yr A40 ei hun ac ar draws yr A40 trwy'r drosbont, gwell amodau ar y ffyrdd gan leihau straen gyrwyr a gwell llwybr i gerddwyr, beicwyr a marchogion ar hyd yr A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd.

Deunyddiau

Bydd angen defnyddio deunyddiau a chynhyrchu a rheoli gwastraff i adeiladu'r Cynllun. Mae'r asesiad wedi ystyried math a swm y deunyddiau a'r gwastraff sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r Cynllun, y dulliau o'u storio, a rheoli'r ffrydiau gwastraff.

Adeiladu

Yn ystod y cyfnod adeiladu, ystyrir bod defnyddio capio ac adeiladu is-haen o arwyddocâd niwtral neu fach oherwydd bod ffynonellau lleol ar gael. O ran gwastraff, aseswyd bod yr effaith yn niwtral neu'n niweidiol fach gan y bydd y gwastraff yn cael ei ailddefnyddio lle y bo'n bosibl. Mae'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle yn amlinellu'r mesurau lliniaru, sy'n cynnwys defnyddio technegau adeiladu arfer gorau a chadw at yr hierarchaeth wastraff.

Ffigur 9: Golygfa dros mynyddoedd Preseli (i'r gogledd o'r A40)

Gweithredu

Yn ystod y cyfnod gweithredu, ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau arwyddocaol yn gysylltiedig â deunyddiau na chynhyrchu gwastraff. Bydd y Cynllun yn cael ei gynnal a'i gadw'n barhaus yn unol ag arfer gorau ac egwyddorion yr hierarchaeth wastraff.

Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol

Mae'r asesiad o'r boblogaeth ac iechyd dynol yn archwilio sut gallai'r Cynllun ddylanwadu ar iechyd a lles cyhoeddus yn yr ardaloedd o amgylch y Cynllun, ac mae'n dosbarthu effeithiau o fewn gwahanol grwpiau cymdeithasol, lle y bo'n bosibl.

Adeiladu

Mae'r asesiad wedi amlygu y bydd effeithiau niweidiol bach ar iechyd o ganlyniad i swn adeiladu, ansawdd aer i grwpiau agored i niwed fel plant, yr henoed a phobl a salwch tymor hir. Gall gweithgareddau adeiladu olygu fod teithio llesol yn llai ddymunol yn ystod yr adeg hon. Ni ystyrir y bydd effaith ar hygyrchedd. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o barhau ar hyd y cyfnod adeiladu yn unig, ac felly rhai dros dro ydynt. I liniaru'r effeithiau hyn, bydd cysylltiad effeithiol yn cael eu sefydlu trwy gydol yr adeiladu, a bydd y gwaith yn cael ei gynnal yn unol a'r CEMP i leihau effeithiau adeiladu.

Gweithredu

Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae effeithiau buddiol bach ar iechyd wedi'u hamlygu yn sgil gwell mynediad i fannau agored a byd natur. Bydd gwell cysylltedd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gwella cyfranogiad mewn teithio llesol, a bydd gwell mynediad at waith yn sgil y gwelliant i'r rhwydwaith ffyrdd a'r lleihad cysylltiedig mewn tagfeydd.

Newid yn yr Hinsawdd

Cynhaliwyd tri asesiad ar gyfer y bennod Newid yn yr Hinsawdd:

- asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG), sy'n meintioli effaith bosibl GHGs ar y Cynllun ac yn amlygu mesurau lliniaru;
- asesiad cydnerthedd newid yn yr hinsawdd (CCR), sy'n gwerthuso effeithiolrwydd ac ymarferoldeb mesurau addasu sydd wedi'u hintegreiddio yn y Cynllun; ac
- asesiad o effaith y newid yn yr hinsawdd ar y cyd (ICCI), sy'n gwerthuso effaith gyfunol y Cynllun ac effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd yn ystod adeiladu a gweithredu.

Ffigur 10: Croesfan Maencoch (yn edrych i'r de-ddwyrain)

Adeiladu

Dangosodd yr asesiad GHG y bydd yr allyriadau a gynhyrchir yn ystod y cam adeiladu yn cynrychioli 1.1% o gyfanswm yr allyriadau a ragfynegir yn ystod y cyfnod arfarnu 60 mlynedd. Prif ffynonellau'r cynnydd mewn allyriadau carbon yw'r carbon mewn deunyddiau adeiladu ac allyriadau o beiriannau a thrafnidiaeth ar y safle. Bydd y mesurau lliniaru yn cynnwys defnyddio cyflenwyr adnoddau a deunyddiau lleol. Bydd hyn yn lleihau'r pellteroedd teithio i'r Cynllun i'r eithaf, gan felly leihau'r effaith garbon sy'n ofynnol i gludo deunyddiau i'r safle. Daeth yr asesiad ICCI i'r casgliad bod mesurau lliniaru digonol eisoes wedi'u hamlinellu yn y Pre-CEMP. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys sicrhau cydnerthedd rhag digwyddiadau tywydd eithafol a darparu draenio digonol ar y safle.

Gweithredu

Dangosodd yr asesiad GHG y bydd mwyafrif yr allyriadau ar hyd oes y prosiect (99%) yn dod o gerbydau sy'n defnyddio'r ffordd. Amcangyfrifir mai'r effeithiau carbon sy'n gysylltiedig ag amnewid arwyneb y ffordd yn ystod gwaith cynnal a chadw yw 0.97ktCO2e ar hyd oes 60 mlynedd y prosiect.

Dangosodd yr asesiad CCR, er bod y rhan fwyaf o'r risgiau tymor agos yn rhai 'isel' neu 'isel iawn', fod dwy risg sy'n gysylltiedig â llifogydd a achosir gan ddigwyddiadau glawiad eithafol wedi'u dosbarthu'n risg 'ganolig', er nad arwyddocaol, yn y tymor hwy. Nid oedd unrhyw risgiau a amlygwyd yn yr asesiad ICCI wedi'u dosbarthu'n rhai arwyddocaol.

Effeithiau Cronnol

Mae angen asesu effeithiau cronnol oherwydd y posibilrwydd y gallai effeithiau ar wahân o fwy nag un prosiect gael effaith arwyddocaol ar dderbynyddion. Mae hyn yn cynnwys yr effaith bosibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu cynllun arfaethedig yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin sydd i'w adeiladu dros gyfnod tebyg. Ystyrir dau brif fath o effeithiau cronnol:

- y cydberthynas rhwng effeithiau a gynhyrchir gan y Cynllun, ac
- y rhyngweithiad effeithiau o'r Cynllun gyda datblygiadau eraill.

O ran effaith cydberthnasoedd, mae'r asesiad yn amlygu effaith 'gymedrol', yn seiliedig ar faint a chymhlethdod y derbynyddion.

O ran yr effaith ar y cyd, amlygwyd cyfanswm o naw prosiect 'ar restr fer'. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau tir, megis cynllun preswyl a chynllun ar wahân yr A40. Y cynllun A40 cydamserol sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith ar y cyd arwyddocaol, gan ei fod yn debygol o effeithio ar fwyafrif y derbynyddion.

Bellach, gall unrhyw unigolyn neu sefydliad gefnogi neu wrthwynebu'r Gorchmynion Statudol drafft, awgrymu dewisiadau amgen i'r Gorchmynion Statudol drafft, neu wneud sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol a/neu'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol.

Yn dibynnu ar natur a nifer unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau a dderbynnir ynglŷn â'r Gorchmynion Statudol drafft cyhoeddedig, gallai Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus gael ei gynnal gerbron Arolygydd annibynnol.

Os bwriedir cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, byddai'r holl rai a ymatebodd fel arfer yn cael gwybod o fewn pedair wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu a byddai'r Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 22 wythnos o'r hysbysiad hwnnw. Byddai manylion llawn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau a byddai hysbysiadau'n ymddangos yn y wasg leol.

Byddai copïau o'r holl ohebiaeth yn cael eu rhoi i'r Arolygydd a'u cadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad, a fyddai ar gael i'r cyhoedd. Byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw gynnig amgen ymarferol a dderbynnir o fewn terfyn amser a bennir yn yr Hysbysiad o Ymchwiliad Cyhoeddus.

8 BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Bellach, gall unrhyw unigolyn neu sefydliad gefnogi neu wrthwynebu'r Gorchmynion Statudol drafft, awgrymu dewisiadau amgen i'r Gorchmynion Statudol drafft, neu wneud sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol a/neu'r Datganiad i Lywio Asesiad Priodol.

Yn dibynnu ar natur a nifer unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau a dderbynnir ynglŷn â'r Gorchmynion Statudol drafft cyhoeddedig, gallai Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus gael ei gynnal gerbron Arolygydd annibynnol.

Os bwriedir cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, byddai'r holl rai a ymatebodd fel arfer yn cael gwybod o fewn pedair wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu a byddai'r Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 22 wythnos o'r hysbysiad hwnnw. Byddai manylion llawn yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau a byddai hysbysiadau'n ymddangos yn y wasg leol.

Byddai copïau o'r holl ohebiaeth yn cael eu rhoi i'r Arolygydd a'u cadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad, a fyddai ar gael i'r cyhoedd. Byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw gynnig amgen ymarferol a dderbynnir o fewn terfyn amser a bennir yn yr Hysbysiad o Ymchwiliad Cyhoeddus.

Dyma Raglen Llywdraeth Cymru:

Gweithgarwch	Dyddiadau Allweddol	Beth Mae Hyn yn ei Olygu?
Cyhoeddi Gorchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol	Mehefin 2020	Byddai'r rhain yn nodi'r tir y byddai ei angen er mwyn adeiladu'r cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol a fyddai'n gysylltiedig â hynny. Byddent yn nodi ffyrdd mynediad lleol a darpariaeth Ffyrdd Mynediad Preifat. Yna byddai'r cyhoedd yn cael cyfle i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynigion amgen.
Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl	Hwyr 2020 / Cynnar 2021	Pe bai angen cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn clywed tystiolaeth gan bartïon â buddiant a rhanddeiliaid yn gyhoeddus. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru o ran y ffordd ymlaen.
Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchmynion	Gwanwyn 2021	Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid gwneud Gorchmynion Statudol a bwrw ati i adeiladu'r prosiect.
Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu	Haf 2021	Byddai'r Contractwr a fyddai'n ymgymryd â'r gwaith dylunio manwl a'r gwaith adeiladu yn cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru.
Dechrau'r Gwaith Adeiladu ar y Safle	Hydref 2021	Byddai gwaith yn dechrau i adeiladu'r rhan newydd o'r gefnffordd.
Y Gwelliannau i'r A40 yn Agor	Diwedd 2022	Byddai'r rhan o'r ffordd wedi'i gwella yn agor i'r cyhoedd.

9 RHAGOR O WYBODAETH

Gellir gweld yr holl ddogfennau a gwybodaeth sydd ar gael ar wefan y cynllun:

https://llyw.cymru/gwelliannaur-a40-penblewin-i-groesffordd-maencoch-trosolwg

Gellir gweld copïau o'r Gorchmynion drafft, y cynlluniau a'r map cysylltiedig, y Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol, yr Hysbysiad Penderfynu a'r Adroddiad Asesu Cynllun Cam 3, yn rhad ac am ddim yn unrhyw rai o'r man adneuo a rhestrwyd o dan.

O achos cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19, nodwch fod hi ddim yn bosib archwilio'r dogfennau yn Neuadd y Frenhines heb gymeradwyo ymlaen llaw. I drefnu i archwilio'r dogfennau, cysylltwch gyda Swyddog Cyswllt y Cyhoedd y Cynllun os gwelwch yn dda.

Swyddog Cyswllt y Cyhoedd:
Martin Gallimore
Ffon: 07923 887119
Ebost: a40enquiries@arup.com

Man Adneuo:
Neuadd y Frenhines
44 Stryd Fawr
Arberth
SA67 7AS

Gellir cael copïau ychwanegol o'r wybodaeth gyhoeddedig gan Lywodraeth Cymru.

10 EICH BARNAU

Pe baech yn dymuno cefnogi'r Gorchmynion Statudol drafft neu'u gwrthwynebu, rhoi cynnig amgen gerbron, neu gynnig sylw ar y Datganiad Amgylcheddol, dylech ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r rhif cyfeirnod qA1397254.

Y Gangen Gorchmynion,
Trafnidiaeth,
Adran Seilwaith yr Economi,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ

Dylid anfon pob ymateb i gyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 9 Medi 2020, fan bellaf.



Landscape Elements (LE)

LE1 Grassland
- LE1.3 Species rich grassland
- LE1.6 Open grassland

LE2 Native Planting
- LE2.1 Woodland
- LE2.2/2.6 Woodland edge/Shrubs
- LE2.4 Linear belts trees & shrubs
- LE2.7 Scattered trees and shrubs

LE4 Hedges
- LE4.2 Native species hedges
- LE4.3 Native species hedgerows
- LE4.4 Hedgerows with trees

LE5 Trees
- LE5.1 Individual trees

LE6 Wetlands
- LE6.2 Banks and ditches
- LE6.4 Marsh and wet grassland

LE7 Hard Landscape Features

LE7.1 Earthworks
- LE7.11 Shallow gradient
- Earthworks cutting
- Earthworks embankment

LE7.2 Structures
- LE7.21 Culvert headwall

LE7.3 Barriers and Fences
- LE7.31 Access gates
- LE7.32 Stock-proof fence
- LE7.33 Pembrokeshire hedge-bank

LE7.4 Pavement Surfaces
- LE7.41 New road
- LE7.42 Route for cyclists, equestrians and pedestrians
- LE7.43 Other hard surfaces

Environmental Elements (E)

E1 Noise
- E1.1 Noise barrier
- E1.2 Noise-reducing earthwork

E2 Water
- E2.11 Culverts

E3 Nature Conservation and Biodiversity
- E3.21 Wildlife barrier
- E3.22 Wildlife crossing

P4 Land use
- P4.4 Public Right of Way


wllt hen A40 i Benblewin
l A40 link to Penblewin
Llwybr i feicwyr, cerddwyr a marchogion
Route for cyclists, pedestrians and equestrians
A478 Aberteifi
Cardigan
Cylchfan Penblewin
Penblewin Roundabout
Fferm
Blackmoor Hill
Farm
Tanffordd Fferm
Blackmoor Hill
Farm Underpass
Fferm
Penblewin
Farm
A478 Arberth
Narberth
Pant-y-gorphwys